

Ysgol Botwnnog

Gwobr



Al Lewis yn cyflwyno gwobr goffa ei dad i James Pearson

Ar ddiwedd yr haf daeth y cerddor, a'r cyn ddisgybl Al Lewis i ymweld â'r ysgol. Pob blwyddyn mae gwobr Goffa er cof am ei dad Mr Lewis Roberts yn cael ei gyflwyno ganddo, a'r enillydd eleni am ei waith rhagorol ym Maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg oedd James Pearson o Abersoch. Llongyfarchiadau i ti James a diolch i Mr Al Lewis am ei gyfraniad.

Ffilmio



Cyn ddisgybl Simon John gyda rhai o ddisgyblion Blwyddyn unarddeg tu allan i'r pod ffilmio

Mae nifer o ddisgyblion wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect gan gwmni teledu Cwmni Da. Yr oedd y disgyblion yn gorfod ymateb i holiadur, y mwyaf o'i fath i'w wneud erioed yn y Gymraeg yn ôl Mali Parry-Jones o'r cwmni. Meddai Mali "Nod y cynllun yw darganfod pwy ydi pobl ifanc Cymru heddiw."

Mae'r atebion yn cael eu ffilmio, gyda'r data i gyd wedyn yn cael ei gyfleu ar ffurf graffeg yn ystod y rhaglen deledu.

Yr oedd y disgyblion yn cael eu ffilmio mewn 'Pod' arbennig oedd fel stiwdio fechan mewn hen garafán a ddaeth i'r ysgol. Yn ôl Mirain Brady o Flwyddyn 11 "Roedd yn brofiad rhyfadd cael ein ffilmio, roedd yn anodd meddwl am atebion ar y pryd ond roeddwn wedi mwynhau cymryd rhan."

Cais am gemau Scrabble

Mae'n fwriad cychwyn Clwb Scrabble yn yr ysgol. Os oes gan un o ddarllenwyr gemau nad ydynt yn eu defnyddio a rheini mewn cyflwr da – byddem yn hynod o ddiolchgar o'u cael.

Blas o Sbaeneg i ddathlu Diwrnod Ieithoedd 2014



Grwp Blwyddyn 10 yn y gwasanaeth ar Ddiwrnod Ieithoedd

Gan fod yna hogyn newydd yn ein hysgol yn dod o Sbaen, mi wnaeth rhai disgyblion o'r dosbarth Bl 10 TGAU Ffrangeg a dosbarth cofrestru Bl 10 Meillionydd gyflwyniad yn Sbaeneg yn y gwasanaeth boreuol. Roeddem wedi paratoi a dysgu cwestiynau ac atebion elfennol yn Sbaeneg er mwyn i weddill yr ysgol ddeall cymaint â phosib o Felipe yn cyflwyno ei hun yn Sbaeneg ar y diwedd.

Georgia Roberts Bl 10

Tyddynnod Rhiw



Bechgyn y cwrs galwedigaethol yn cael toriad am ginio yn Fron Deg

Fel rhan o'r cwrs galwedigaethol mae nifer o fechgyn Blwyddyn 10 wedi bod yn gwirfoddoli gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar eu prosiect Tyddynnod ar lethrau'r Rhiw. Ar hyn o bryd maent wedi bod yn adnewyddu'r wal gerrig o gwmpas yr ardd yn Fron Deg gyda'r gobaith nes ymlaen o weithio ar yr ardd ei hun.

Top



Llongyfarchiadau i Chloe Butterworth, Blwyddyn 11 a ddaeth yn 8fed merch ym mhencampwriaeth hwylio y byd, dosbarth Toppers ym Mhwillheli yn ddiweddar

Taith Nabod Bro



Egwyl Ginio yn Morfa Nefyn ar daith adnabod bro

Bu Bwyddyn 7 ar eu taith flynyddol yn dod i adnabod eu milltir sgwar yn well. Rydym yn hynod ddiolchgar i Mr John Dilwyn Williams, hanesydd yr ardal am ymuno â ni yng Nghapel Newydd Nanhoron a Phlas Glyn y Weddw. Roedd ganddo stôr o wybodaeth i'w rhannu â ni. Cafwyd cyfraniadau penigamp gan y disgyblion hefyd, pawb yn siarad o'r frest yn huawdl a diddrol a phawb â chariad at eu hardal. Gwych iawn. Cafwyd ymweliad annisgwyl gan Mr Robat Jones i sôn am Fad Achub Porthdinllaen - diolch Mr Jones. Wrth drafod ac ysgrifennu am uchafbwyntiau'r daith roedd pawb wedi mwynhau cyfraniad Mr Irfon Jones am ddaear Pen Llŷn a'i wybodaeth am longdrylliadau lleol, a chyfraniadau'r disgyblion i gyd, yn arbennig Tomos Dobson a Rhodri Jones a'r ymweliad â Nanhoron.

Hoci

Mae Lili Owen Blwyddyn 11, Alice Williams Blwyddyn 10, a Gwen Williams Blwyddyn 9 wedi eu dewis i dîm hoci dan unarbymtheg Gwynedd ac eisioes fel aelodau o'r tîm wedi ennill twrnament Gogledd Cymru ym Mae Colwyn.

Noson Goffi



Swyddogion y Pwyllgor Noson Goffi

Y mae'n amser o'r flwyddyn pan fo sylw Blwyddyn 11 yn troi at y Noson Goffi. Mae pwyllgor wedi ei ffurfio a llawer o wahanol weithgareddau wedi eu cynllunio. Bydd y Noson Goffi eleni ar Dachwedd 12fed (heddiw!), am 7.00 yn Neuadd Hughes Thomas yn yr ysgol, dewch i gefnogi!

Cofiwch hefyd am y Ffair Grefftau, dydd Sadwrn nesa, Tachwedd 15, o 10 tan 3.